

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mehefin 2022

STATWS: GWEITHREDU

Teitl: Y Rhaglen Genedlaethol Imiwneiddio Rhag y Ffliw 2022-23

Dyddiad dod i ben/Adolygu Amherthnasol	
<p>I'w weithredu gan: Meddygon Teulu Fferyllwyr Cymunedol Arweinwyr Imiwneiddio, Byrddau/Ymddiredolaethau Iechyd Prif Weithredwyr, Byrddau/Ymdd. Iechyd Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau/Ymddiredolaethau Iechyd Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Byrddau/Ymddiredolaethau Iechyd Prif Fferyllwyr, Byrddau/Ymdd. Iechyd Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iechyd Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, Byrddau Iechyd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Mamolaeth, Byrddau Iechyd Cyfarwyddwyr Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad, Byrddau/Ymdd. Iechyd Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru Cyfarwyddwr Nyrsio, Iechyd Cyhoeddus Cymru Pennaeth y Rhaglen Clefydau y gellir eu Hatal drwy Frechu, Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>	<p>Er gwybodaeth i: Fforwm Partneriaeth GIG Cymru GPC(Cymru) Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu Coleg Brenhinol y Nyrsys Coleg Brenhinol y Bydwagedd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Fferylliaeth Gymunedol Cymru Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru Arolygiaeth Gofal Cymru Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i'w anfon ymlaen at y canlynol: Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Awdurdodau Lleol Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd, Awdurdodau Lleol Cyfarwyddwyr Addysg, Awdurdodau Lleol Gofal Cymdeithasol Cymru Addysg a Gwella Iechyd Cymru</p>

Anfonydd:

Syr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

Enw(au) cyswilt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Tîm y Rhaglen Frechu, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ E-bost: wg.vaccinationsprogrammeteam@gov.wales

Dogfen(nau) amgaaedig:

Rhaglen Brechu Plant Rhag y Ffliw 2022-23 – Manyleb y Gwasanaeth Estynedig Cenedlaethol -
wedi'i diweddarau

Rhaglen Genedlaethol Imiwneiddio rhag y Ffliw 2022-2023

Annwyl Gyfaill,

1. Hoffwn ddiolch i bawb sy'n ymwneud â rhaglen y fflw yng Nghymru am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i ddarparu brechiadau rhag y fflw i fwy na miliwn o bobl y gaeaf diwethaf, gan helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd a lleihau'r pwysau ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mewn cyfnod mor heriol. Nifer y brechlynnau fflw a roddwyd yn nhymor 2021-22 oedd yr uchaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru.
2. Yn ystod 2021-22, rydym wedi gweld gweithgarwch fflw hwyrach nag arfer ar lefelau isel, yn bennaf oherwydd y fflw A(H3N2). Pan ddaw'r gaeaf, mae angen inni, unwaith eto, baratoi ar gyfer ansicrwydd ynghylch gweithgarwch y fflw. Gallm weld gweithgarwch llawer uwch neu anesboniadwy, a disgwyl gweld y fflw a COVID-19 yn cylchredeg, felly mae sicrhau bod llawer o bobl yn cael eu brechu rhag y fflw yn flaenoriaeth bwysig yn yr hydref/gaeaf sydd i ddod. Bydd adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn 2021-22 yn bwysicach byth. Bydd sicrhau bod nifer uchel o bobl yn manteisio ar y brechlyn yn helpu i leihau afiachedd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r fflw, a hefyd yn lleihau cyfnodau yn yr ysbyty ar adeg pan allai'r GIG a gofal cymdeithasol fod o dan bwysau mawr unwaith eto, oherwydd gorfod rheoli achosion o COVID-19 a/neu'r fflw yn y gaeaf.
3. Unwaith eto, bydd y rhaglen yn 2022-23 yn cynnwys pawb rhwng 50 a 64 oed, fel rhan o'r brif ymgyrch (gweler [WHC/2022/010](#)). Hoffwn weld cymaint o bobl â phosibl yn cael eu brechu rhag y fflw yn y grwpiau o'r boblogaeth sydd fwyaf tebygol o ddal y fflw a dioddef canlyniadau difrifol, a hefyd yn y rhai sydd mewn mwy o berygl o heintio pobl eraill, y gallai rhai ohonynt fod yn agored iawn i niwed.
4. Bydd y rhaglen brechu rhag y fflw yng Nghymru hefyd yn parhau i gynnwys pob plentyn a pherson ifanc ym mlynnyddoedd ysgol uwchradd 7 i 11.
5. Mae cynnwys y grwpiau ychwanegol hyn yn adlewyrchu cyngor y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI).
6. Yn gryno, mae'r grwpiau blaenoriaeth ar gyfer 2022-23 (ddim mewn unrhyw drefn benodol) fel a ganlyn:
 - plant dwy a thair oed ar 31 Awst 2022
 - plant yn yr ysgol gynradd o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6 (yn gynhwysol)
 - plant yn yr ysgol uwchradd Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11 (yn gynhwysol)
 - pobl 50 oed ac yn hŷn (oedran ar 31 Mawrth 2023)
 - pobl chwe mis oed i 49 oed mewn grŵp risg glinigol
 - menywod beichiog
 - gofalwyr
 - pobl ag anabledd dysgu

- pobl â salwch meddwl difrifol
- pob oedolyn sy'n byw yng ngharchardai Cymru
- staff mewn cartrefi nyrsio a chartrefi gofal sydd â chyswllt uniongyrchol â chleientiaid
- staff sy'n darparu gofal cartref
- staff sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen y GIG/gofal sylfaenol
- unigolion sy'n ddiartref
- gweithwyr gofal iechyd (gan gynnwys myfyrwyr gofal iechyd) sydd â chyswllt uniongyrchol â chleifion

Ceir manylion pellach yn Atodiad 1.

7. Eleni, hoffwn weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu brechu rhag y fflw ym mhob grŵp sy'n gymwys i gael y brechlyn, er mwyn diogelu'r cyhoedd yng Nghymru yn y ffordd orau.
8. Rhaid i bractisau meddygon teulu a darparwyr sy'n darparu'r rhaglen ysgolion ddangos cynnig o frechiad rhag y fflw i bob claf sydd mewn perygl, gyda'r nod o gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y brechiad a chyrraedd unrhyw dargedau iechyd cyhoeddus, gan sicrhau bod pob claf cymwys yn cael cynnig y cyfle i gael ei frechu. Wrth anelu at sicrhau'r cyfraddau brechu mwyaf posibl ymhlith grwpiau cymwys, dylai byrddau iechyd sicrhau nad yw'r rhaglen brechu rhag y fflw yn cael effaith negyddol ar fusnes craidd arall a gynhelir gan bractisau meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol y gaeaf hwn. Rwyf yn sylweddoli na fydd yn hawdd taro'r cydbwysedd iawn yn hyn o beth ond mae darparwyr yn brofiadol wrth reoli sefyllfaoedd fel hyn – a bydd hyn yn bwysicach byth eleni.
9. Disgwylir gweld cydweithio ym maes gofal sylfaenol rhwng practisau meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol, a bydd yn arbennig o bwysig yn y tymor nesaf i helpu i gynyddu cyfraddau brechu ymhlith grwpiau cymwys.
10. Rhaid inni hefyd gefnogi'r rhai sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl ym mhob grŵp arall nas gwasanaethir yn ddigonol, megis y rhai ag anableddau, i hwyluso mynediad teg a chyfartal at frechu. Ein nod yw cynyddu cyfraddau brechu ar gyfer y grwpiau hyn i lefel sy'n gymaradwy â'r boblogaeth gyfan. Bydd angen ymgysylltu o ansawdd uchel â chymunedau lleol, cyflogwyr, grwpiau ffydd a grwpiau eiriolaeth i hwyluso hyn, a hynny mewn ffordd sy'n gymwys yn rhyngddiwylliannol. Dylai darparwyr sicrhau felly fod ganddynt gynlluniau cadarn ar waith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd i bob grŵp nas gwasanaethir yn ddigonol yn eu cynlluniau ar gyfer y rhaglen brechu rhag y fflw.
11. Dyrennir adnoddau i'r byrddau iechyd i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r rhaglen estynedig. Caiff gwybodaeth am ddyraniadau cyllid ei darparu cyn hir.

Brechlynnau Covid-19

12. Mae JCVI wedi cydnabod, yn ei gyngor interim, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022, mai'r gaeaf yw'r tymor o hyd pan fo'r bygythiad o COVID-19 ar ei uchaf i unigolion ac i gymunedau iechyd, yn enwedig i bobl hŷn a'r rhai mewn grwpiau risg glinigol. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor wedi argymhell brechlyn yn hydref 2022 ar gyfer y grwpiau canlynol:
- Preswylwyr mewn cartref gofal i oedolion hŷn a staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn
 - Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen
 - Pawb sy'n 65 oed ac yn hŷn
 - Oedolion 16 i 64 oed mewn grŵp risg glinigol
13. Mae'r JCVI wrthi'n adolygu manylion pellach am y diffiniadau o grwpiau risg glinigol a grwpiau eraill a bydd mwy o fanylion yn cael eu darparu pan gyhoeddir cyngor terfynol y Pwyllgor. Mae'n bosibl y caiff grwpiau ychwanegol eu hychwanegu at y grwpiau cymwys yng nghyngor terfynol y Pwyllgor. Gan hynny, dylai'r byrddau iechyd barhau i gynllunio ar sail y sefyllfaoedd cynllunio a amlinellwyd yn llythyr Prif Weithredwr y GIG ym mis Chwefror 2022.
14. Mae'r gwaith blaenorol o weinyddu'r brechlynnau ffliw a COVID-19 yng Nghymru wedi gweithredu'n bennaf drwy fodolau cyflenwi gwahanol. Er hynny, dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer un rhaglen ar gyfer brechu rhag COVID-19/y ffliw yn ystod tymor 2022-23. Dylid cynllunio a chodi ymwybyddiaeth ar sail un rhaglen gydgyssylltiedig a chydlynol ar gyfer y ddau frechlyn. A, lle bynnag y bo modd, dylid cysoni modelau cyflenwi i ganiatáu ar gyfer cyd-weinyddu, er mwyn helpu i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau a'r cyfraddau brechu mwyaf posibl.
15. Mae elfennau eithriadol cyngor JCVI ar y brechlyn COVID-19 yn dal yn hanfodol i'r cynllunio manwl ar gyd-weinyddu - yn enwedig penderfyniad ar ba frechlyn a argymhellir a'r effaith felly ar leoliad, cludo, storio, paratoi a hyfforddi, ynghyd â chysoni posibl ar grwpiau cymwys.
16. Pan fydd y manylion hyn yn hysbys, gofynnir i'r byrddau iechyd fabwysiadu dull strategol o nodi a manteisio ar gyfleoedd ar gyfer un rhaglen, gan gynnwys cyd-weinyddu brechlynnau. Gall hyn olygu gwneud penderfyniadau gweithredol allweddol, megis sicrhau bod cyflenwadau o frechlyn y ffliw a brechlyn COVID-19 ar gael i'w cyd-weinyddu mewn lleoliadau addas. Mae'n debygol y bydd cyd-weinyddu'r ddau frechlyn ar yr un pryd yn gwneud rhywfaint i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar frechlyn y ffliw, i lefel sy'n gymesur â'r nifer sy'n manteisio ar frechlyn COVID-19, yn enwedig ar gyfer grwpiau iau sydd mewn perygl. Mae carfanau sydd mewn perygl o ddal ffliw wedi'u hehangu ar gyfer 2022-23 i gyd-fynd yn agosach â grwpiau sydd mewn perygl o ddal COVID ac i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer cyd-weinyddu.
17. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi strategaeth frechu ar y cyd ar gyfer y ffliw a COVID-19, yn dilyn cyhoeddi cyngor terfynol JCVI ar raglen COVID-19, i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflenwi un rhaglen.

18. Unwaith eto, hoffwn ddiolch ichi am eich gwaith wrth gyflenwi'r rhaglen brechu rhag y fflw dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi bod yn gyfnod heriol iawn. Bydd angen i ofal sylfaenol, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, darparwyr gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill barhau i gydweithio, yn hyblyg a chyda dyfeisgarwch i fodloni gofynion cynyddol tymor heriol arall. Fel bob amser, gwn y byddwch yn ymateb i'r her.

Yn gywir



Syr Frank Atherton
Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru